# Triflurine–tipiracil ar gyfer canser y colon a'r rhefr metastatig sydd wedi'i drin yn flaenorol

Awst 2016

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir trifluridine-tipiracil (lonsurf) fel triniaeth bosibl ar gyfer canser y colon a'r rhefr metastatig. Mae ar gyfer oedolion sydd wedi cael triniaeth ar gyfer eu canser y colon a'r rhefr yn flaenorol neu pan na fydd triniaethau eraill yn addas.

**Beth mae hyn yn ei olygu i mi?**

Os oes gennych ganser y colon a'r rhefr metastatig sydd wedi'i drin yn flaenorol, a bod eich meddyg o'r farn mai trifluridine–tipiracil yw'r driniaeth gywir, dylech allu ei chael ar y GIG.

Dylai trifluridine–tipiracil fod ar gael ar y GIG o fewn 3 mis.

**Y cyflwr a'r driniaeth**

Mae canser y colon a'r rhefr, a elwir hefyd yn ganser y coluddyn, yn ganser sy'n effeithio ar rannau o'r coluddyn a elwir y colon neu'r rhefr. Caiff ei ddisgrifio fel metastatig os yw wedi ymledu o'r colon neu'r rhefr i rannau eraill o'r corff.

Mae trifluridine yn arafu twf y celloedd canser, ac mae tipiracil yn helpu'r trifluridine i weithio am fwy o amser.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Beating Bowel Cancer, 020 8973 0011
- Canser y Coluddyn y DU, 020 7940 1760
- Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040

- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2111-9